



Office for Nuclear Regulation (ONR) Site Report for Trawsfynydd

Report for period 1st October 2019 – 31st March 2020

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (<http://www.onr.org.uk/llic/>).

Site inspectors from ONR usually attend the Trawsfynydd SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to enquire about matters covered by this report should contact ONR.

TABLE OF CONTENTS

1	INSPECTIONS	3
2	ROUTINE MATTERS.....	3
3	NON-ROUTINE MATTERS.....	4
4	REGULATORY ACTIVITY	5
5	NEWS FROM ONR.....	5
6	CONTACTS.....	7

1 INSPECTIONS

1.1 Dates of inspection

The ONR nominated site inspector attended the site on the following dates:

- 18 November 2019.
- 3 – 5 December 2019.
- 12 and 13 February 2020.

2 ROUTINE MATTERS

2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013;
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, ONR carried out the following inspections at Trawsfynydd:

- LC7 Incidents on the site
- LC 12 Duly authorised and other SQEP
- LC 26 Control and supervision of operations
- Ionising Radiation Regulations 2017 (IRR17) compliance
- Leadership and management for safety

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

2.2 Other work

ONR's site inspector discussed Trawsfynydd's implementation of its re-baselined decommissioning safety case (RDSC) and was content with progress. The RDSC will form the basis of the site's reference safety case (RSC) to keep the site in a quiescent state for the period up to the start of the planned care and maintenance (C&M) period; and reflects the significant reduction in Trawsfynydd's nuclear (radiological) hazard resulting from decommissioning work already completed.

Following introduction of the radiation (emergency preparedness and public information) regulations (REPPIR) 2019, Trawsfynydd is required to have a 1km outline planning zone (OPZ). This is because of a new requirement to consider very low likelihood events that have the potential to result in an off-site release of radioactivity. Trawsfynydd will be captured under these regulations until ongoing work to retrieve and passivate intermediate level waste (ILW) on the site is completed (estimated to be by the end of 2020). At the time of writing restrictions to prevent the spread of Covid-19 means that Trawsfynydd has halted all operations and this will impact timescales for completion of ILW retrievals and passivation work.

ONR's site inspector also discussed Trawsfynydd's progress in preparing its periodic safety review which is scheduled for submission to ONR in December 2020 (under licence condition 15, periodic review). We discussed the current progress Trawsfynydd has made in developing the submission and ONR was assured that the PSR submission would be completed on time. Please note my previous comment on Trawsfynydd's response to the Covid-19 pandemic which has the potential to delay this submission.

3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were two incidents reported to ONR in the period, as follows:

- On 2 January 2020 a whole body monitor detected contamination that further monitoring found to be attached to a workers sock. Further investigation of the sock concluded that the activity was a single particle. Analysis of the particle concluded that it could not have originated from Trawsfynydd. A possible source of the particle was suggested as cross contamination of Trawsfynydd's radiological personal protective equipment (PPE) at an off-site radiological laundry facility. That facility has been informed of the event. ONR inspectors discussed this incident with Trawsfynydd's relevant staff during a subsequent IRR17 inspection and were satisfied that Trawsfynydd had acted promptly and were satisfied that they had taken the actions to help prevent a recurrence.
- On 28 February 2020 a worker crossed a controlled area barrier without a filter attached to their respirator. Wearing a respirator was a requirement of the area's local rules. The missing filter was noticed by colleagues already in the area when the worker arrived and before any work had commenced. ONR's site inspector discussed this event with Trawsfynydd's HoRP and was satisfied with the investigation carried out and the actions taken to help prevent a recurrence, including standing down workers to reinforce checking procedures before entering controlled areas.

In response to the Covid-19 pandemic, all decommissioning and radioactive waste handling activities have stopped on site. This interim pause in operations has allowed the number of personnel to be reduced to a minimum level so that only monitoring and surveillance of plant is being undertaken, such as periodically emptying sumps and checking ventilation systems, and that security can be sustained. The majority of personnel are now working from home. ML wrote to ONR on 26 March 2020 confirming this position. The ML Internal Oversight team has checked independently that the pandemic arrangements have been properly implemented.

Emergency preparedness is being maintained through a duty cover team in accordance with ONR approved emergency arrangements. These arrangements include the provision to call in additional personnel and the emergency services onto site to assist ML staff. These plans have been regularly rehearsed and observed by ONR inspectors during emergency exercises

in the recent past. ML has not reported any supply chain issues that may affect the sites safe status.

4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site Licence Conditions (LC) ONR issues regulatory documents which either permit an activity or require some form of action to be taken. These are collectively termed 'Licence Instruments' (LIs). In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety. There was one LI and no enforcement notices issued during this reporting period.

Licence Instruments and Enforcement Notices Issued by ONR during this period

Date	Type	Ref No	Description
20/12/2019	Licence Instrument	535	Specification under licence condition 25(4). Trawsfynydd to furnish ONR with records of high activity sealed sources (HASS) reflecting changes in Regulations.

Reports detailing the above regulatory decisions can be found on the ONR website at <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5 NEWS FROM ONR

All our latest news is available on our website www.onr.org.uk.

Covid-19 (Coronavirus) (ONR position)

ONR is continuing to protect society by securing safe nuclear operations during the Coronavirus pandemic. ONR staff continue to work from home, in line with government advice. We have considered our priorities, have deferred non-critical activities, and are carrying out as much of our work as possible via videoconference, phone and email. Our regulatory focus includes assurance, where appropriate, from site licensees that they are applying the public health measures introduced to reduce the spread of coronavirus. A limited number of our inspectors can, as key workers, continue to travel to site as necessary to conduct urgent and essential regulatory inspections. Nuclear sites have been reducing non-essential activities so as to protect staff, infrastructure, and the public. As always, we are regulating those activities to ensure they are carried out safely and securely.

Enforcement Action

ONR served an [Enforcement Notice](#) on Urenco UK Ltd following a fire safety inspection at its Capenhurst Works in Cheshire during December 2019. The notice was issued in response to shortfalls identified in the fire alarm and detection systems at one of the site's facilities.

In February ONR announced that [Sellafield Limited had complied](#) with an Improvement Notice relating to staff training, operating procedures and procedural adherence that they were served with in May 2019.

Regulatory Updates

In January ONR published an update to its Safety Assessment Principles, to incorporate some relatively minor revisions including typographical corrections and updates to reflect changes to the UK's nuclear regulatory framework since 2014.

In February ONR completed Step 3 of the Generic Design Assessment (GDA) of the UK HPR1000 design, and took the decision to progress to Step 4 of the GDA. During Step 3, ONR increased its regulatory scrutiny and undertook a more detailed assessment of the design, focusing on the methods and approaches used by the GDA Requesting Party to underpin their safety and security claims.

In March we published the Quarterly [Statement of Civil Incidents](#) for the period 1 October to 31 December 2019. During this reporting period there were two civil incidents at nuclear licensed sites within Great Britain that met the Ministerial Reporting Criteria as defined within the Nuclear Installations (Dangerous Occurrences) Regulations 1965 and ONR guidance in relation to notifying and reporting incidents and events.

Stakeholder Engagement

On 15 January ONR launched a four-week public consultation on its draft 2025 Strategy. Once agreed, the strategy will set our direction and priorities for the next five years. To support the public consultation we held a webinar for NGOs and other stakeholders in which our Chief Executive, Adrienne Kelbie, and Technical Director, Anthony Hart, gave an overview of the strategy and welcomed questions and comments. The strategy is due to be published in May 2020.

In January, ONR achieved Level 3 Disability Confident (Leader) status, recognising our desire to put people first and create an environment in which everyone can thrive. The government-backed scheme encourages employers to think differently about disability and take action to improve how they recruit, retain and develop disabled people.

In February, we announced the appointment of two new members to the ONR Board. Dr Janet Wilson took up the appointment on 1 April 2020 and Tracey Matthews will take up her appointment on 1 June 2020 – both appointments are for five year terms.

In February more than 70 stakeholders involved in the transport of radioactive material attended a conference organised by ONR's Transport Competent Authority (TCA) team. The event provided a good opportunity for the TCA team to share their expectations on compliance with regulations governing the transport of radioactive material.

CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

website: www.onr.org.uk
email: contact@onr.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication, please visit <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Office for Nuclear Regulation, 2020

If you wish to use this information visit www.onr.org.uk/copyright for details.

Published 04/20

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.



Y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1^{af} Hydref 2019 – 31^{ain} Mawrth 2020

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoliadol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd SSG Trawsfynydd ble cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO.....	5
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	5
6	CYSYLLTIADAU.....	6

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Mynychodd arolygydd safle enwebedig yr ONR y safle ar y dyddiadau canlynol:

- 18 Tachwedd 2019.
- 3 – 5 Rhagfyr 2019.
- 12 a 13 Chwefror 2020.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HWSA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HWSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 (IRR17) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddadl ddiogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd yr ONR yr archwiliadau canlynol yn Nhrawsfynydd:

- LC7 Digwyddiadau ar y safle
- LC 12 Awdurdodwyd ac SQEP eraill
- LC 26 Rheolaeth a goruchwyliaeth o weithdrefnau
- Cydymffurfiad â Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio 2017 (IRR17)
- Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer diogelwch

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

2.2 Gwaith arall

Trafododd arolygydd safle'r ONR weithrediad Trawsfynydd o'i achos diogelwch datgomisiynu gyda llinell sylfaen newydd (RDSC) ac roedd yn fodlon â'r cynnydd. Bydd yr RDSC yn sail i achos diogelwch cyfeirnod y safle (RSC) i gadw'r safle mewn cyflwr llonydd ar gyfer y cyfnod hyd at gychwyn y cyfnod gofal a chynnal a chadw (C&M) arfaethedig; ac mae'n adlewyrchu'r lleihad arwyddocaol ym mherygl niwclear (radiolegol) Trawsfynydd yn deillio o waith datgomisiynu sydd eisoes wedi ei gwblhau.

Yn dilyn cyflwyno'r rheoliadau ymbelydredd (parodwydd ar gyfer argyfwng a gwybodaeth gyhoeddus) (REPPIR) 2019, mae'n ofynnol i Drawsfynydd gael parth cynllunio amlinellol (OPZ) o 1km. Mae hyn oherwydd gofyniad newydd i ystyried digwyddiadau tebygolrwydd isel iawn sydd â'r potensial i arwain at ryddhau ymbelydredd oddi ar y safle. Bydd Trawsfynydd yn cael ei gipio dan y rheoliadau hyn nes bydd gwaith parhaus i adfer a goddefoli gwastraff lefel canolraddol (ILW) ar y safle wedi ei gwblhau (argymhellir i fod erbyn diwedd 2020). Wrth ysgrifennu, golyga cyfyngiadau i atal lledaeniad Covid-19 fod Trawsfynydd wedi atal ei holl weithrediadau a bydd hyn yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer cwblhau adferiad ILW a gwaith goddefoli.

Trafododd arolygydd safle'r ONR hefyd gynnydd Trawsfynydd i baratoi ei adolygiad cyfnodol o ddiogelwch sydd wedi ei drefnu i'w gyflwyno i'r ONR yn Rhagfyr 2020 (dan amod trwyddedu 15, adolygiad cyfnodol). Trafodom gynnydd cyfredol Trawsfynydd ar ddatblygu'r cyflwyniad ac fe sicrhawyd yr ONR y byddai cyflwyniad y PSR yn cael ei gwblhau'n brydlon. Noder fy sylw blaenorol ar ymateb Trawsfynydd i'r pandemig Covid-19 sydd â'r potensial i oedi'r cyflwyniad hwn.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Adroddwyd dau ddigwyddiad i'r ONS yn y cyfnod, fel a ganlyn:

- Ar 2 Ionawr 2020, canfu monitor corff cyfan halogiad y canfuwyd wedi monitro pellach i fod wedi ei atodi i hosan gweithiwr. Casglodd ymchwiliad pellach o'r hosan fod y gweithgaredd yn ronyn unigol. Casglodd dadansoddiad o'r gronyn na allai fod wedi tarddu o Drawsfynydd. Awgrymwyd mai ffynhonnell bosibl o'r gronyn oedd traws halogiad o offer amddiffynnol personol (PPE) radiolegol Trawsfynydd ar safle golchdy radiolegol oddi ar y safle. Mae'r cyfleuster wedi ei hysbysu o'r digwyddiad. Trafododd arolygydd amddiffyn ymbelydredd arbenigol yr ONR ac arolygydd safle enwebedig y digwyddiad hwn gyda phennaeth amddiffyn ymbelydredd (HoRP) Trawsfynydd a staff perthnasol eraill yn ystod archwiliad IRR17 ac roedd yn fodlon bod Trawsfynydd wedi gweithredu'n brydlon ac yn briodol; ac wedi cymryd camau i atal ailadrodd y digwyddiad.
- Ar 28 Chwefror 2020 croesodd gweithiwr rwystr ardal a reolir heb hidlydd ar ei anadlydd. Roedd gwisgo anadlydd yn ofyniad yn rheolau lleol yr ardal. Nododd cydweithwyr oedd eisoes yn yr ardal yr hidlydd coll pan gyrrhaeddodd y gweithiwr a chyn cychwyn ar unrhyw waith. Trafododd arolygydd safle enwebedig yr ONR y digwyddiad hwn gyda HoRP Trawsfynydd ac roedd yn fodlon â'r ymchwiliad a gyflawnwyd a'r camau i atal digwyddiad arall, yn cynnwys ymgilio gweithwyr i atgyfnerthu gweithdrefnau gwirio cyn mynd i mewn i ardaloedd a reolir.

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae'r holl weithgareddau datgomisiynu a thrin gwastraff ymbelydrol wedi eu hatal ar y safle. Mae'r seibiant dros dro ar waith wedi galluogi lleihau nifer y personél i lefel isafswm fel mai dim ond monitro a goruchwyliaeth o'r safle sy'n digwydd, fel gwagio sympiau'n achlysurol a gwirio systemau wyntyllu, ac er mwyn cynnal diogeledd. Mae mwyafrif y personél nawr yn gweithio o gartref. Ysgrifennodd ML at yr ONR ar 26 Mawrth 2020 yn cadarnhau'r sefyllfa hon. Mae tîm Goruchwyliaeth Fewnol ML wedi gwirio'n annibynnol bod y trefniadau pandemig wedi eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae parodwydd ar gyfer argyfwng yn cael ei gynnal trwy dîm gofal ar ddyletswydd yn unol â threfniadau argyfwng cymeradwy'r ONR. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y ddarpariaeth i alw am bersonél atodol a gwasanaethau brys i ddod i'r safle i gynorthwyo staff ML. Mae'r

cynlluniau hyn wedi eu hymarfer yn rheolaidd a'u harsylwi gan arolygwyr yr ONR yn ystod ymarferion argyfwng yn y gorffennol diweddar. Nid yw ML wedi adrodd unrhyw broblemau gyda'r gadwyn gyflenwi a allai effeithio ar statws diogel y safleoedd.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan Amodau Trwyddedu (LC) safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn Offerynnau Trwyddedu (LI). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch. Cyhoeddwyd un Offeryn Trwyddedu, a dim Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Rhif Cyfeirio	Disgrifiad
20/12/19	Offeryn Trwydded	535	Manylion dan amod trwyddedu 25(4). Trawsfynydd i ddarparu cofnodion i'r ONR o ffynonellau gweithgaredd uchel wedi selio (HASS) yn adlewyrchu newidiadau mewn Rheoliadau.

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoliadol uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Mae ein newyddion diweddaraf ar gael ar ein gwefan www.onr.org.uk.

Covid-19 (Coronafeirws) (safbwynt yr ONR)

Mae'r ONR yn parhau i amddiffyn cymdeithas trwy sicrhau gweithrediadau niwclear diogel yn ystod y pandemig Coronafeirws. Mae staff yr ONR yn parhau i weithio o gartref, yn unol â chynghor y llywodraeth. Rydym wedi ystyried ein blaenoriaethau, wedi gohirio gweithgareddau nad ydynt yn allweddol, ac yn cyflawni cymaint o'n gwaith â phosibl trwy gynhadledd fideo, ffôn ac e-bost. Mae ein ffocws rheoleiddio yn cynnwys sicrwydd gan drwyddedai safleoedd, ble fo'n briodol, eu bod yn gweithredu'r mesurau iechyd cyhoeddus a gyflwynwyd i leihau lledaeniad coronafeirws. Fel gweithwyr allweddol, gall nifer gyfyngedig o'n harolygwyr barhau i deithio i safleoedd fel fo angen i gyflawni archwiliadau rheoleiddio brys ac allweddol. Mae safleoedd niwclear wedi bod yn lleihau gweithgareddau nad ydynt yn allweddol er mwyn diogelu staff, seilwaith a'r cyhoedd. Fel arfer, rydym yn rheoleiddio'r gweithgareddau hynny i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn ddiogel.

Gweithredu Gorfodol

Cyflwynodd yr ONR [Hysbysiad Gorfodi](#) ar Urenco UK Ltd yn dilyn archwiliad diogelwch tân yn ei Safle Capenhurst yn Swydd Gaer yn ystod Rhagfyr 2019. Cyhoeddwyd yr hysbysiad mewn ymateb i ddiffygion a nodwyd yn y systemau larymau a chanfod tân yn un o gyfleusterau'r safle.

Yn Chwefror, cyhoeddodd yr ONR fod [Sellafield Limited wedi cydymffurfio](#) gyda Hysbysiad Gwelliant parthed hyfforddi staff, gweithdrefnau gweithredu a dilyn gweithdrefnau a gyhoeddwyd iddynt ym Mai 2019.

Diweddariadau Rheoleiddiol

Yn Ionawr, cyhoeddodd yr ONR ddiweddariad i'w Egwyddorion Asesiad Diogelwch, i ymgorffori rhai adolygiadau cymharol fân yn cynnwys cywiriadau argraffyddol a diweddariadau i adlewyrchu newidiadau i fframwaith rheoleiddio niwclear y Deyrnas Unedig ers 2014.

Yn Chwefror, cwblhaodd yr ONR Gam 3 yr Asesiad Dyluniad Generig (GDA) o ddyluniad UK HPR1000, a phenderfynu bwrw ymlaen i Gam 4 y GDA. Yn ystod Cam 3, cynyddodd yr ONR ei graffu rheoleiddiol a chyflawni asesiad manylach o'r dyluniad gan ffocysu ar ddulliau ac ymagweddau a ddefnyddiwyd gan y Parti Ymgeisio GDA i ategu eu hawliadau diogelwch a diogeled.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y [Datganiad o Achosion Sifil](#) chwarterol ar gyfer y cyfnod 1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2019. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafwyd dau ddigwyddiad sifil mewn safleoedd niwclear trwyddedig o fewn Prydain Fawr oedd yn bodloni'r Meini Prawf Adrodd Gweinidogol fel y diffiniwyd dan y Rheoliadau Safleoedd Niwclear (Digwyddiadau Peryglus) 1965 a chanllaw'r ONR parthed hysbysu ac adrodd achosion a digwyddiadau.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ar 15 Ionawr, lansiodd yr ONR ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos ar ei Strategaeth 2025 drafft. Wedi cytuno, bydd y strategaeth yn sefydlu ein cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. I gefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus fe gynhaliom weminar ar gyfer NGOs a rhanddeiliaid eraill ble cyflwynodd ein Prif Weithredwr, Adrienne Kelbie, a'r Cyfarwyddwr Technegol, Anthony Hart, drosolwg o'r strategaeth a chroesawu cwestiynau a sylwadau. Disgwylir y bydd ein strategaeth yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai 2020.

Yn Ionawr, cyflawnodd yr ONR statws Lefel 3 Hyderus o ran Anabledd (Arweinydd), gan gydnabod ein hawydd i flaenoriaethu pobl a chreu amgylchedd ble gall pawb ffynnu. Mae'r cynllun a gefnogir gan y llywodraeth yn annog cyflogwyr i feddwl yn wahanol am anabledd ac i gymryd camau i wella sut maent yn recriwtio, dargadw a datblygu pobl anabl.

Yn Chwefror, fe gyhoeddodd benodiad ddau aelod newydd i Fwrdd yr ONR. Penodwyd Dr Janet Wilson ar 1 Ebrill 2020 a bydd Tracey Matthews yn cychwyn ei phenodiad ar 1 Mehefin 2020 – mae'r ddau benodiad am gyfnod o bum mlynedd.

Yn Chwefror, mynychodd dros 70 o rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chludo deunydd ymbelydrol gynhadledd wedi ei threfnu gan dîm Awdurdod Cymwys Cludiant (TCA) yr ONR. Roedd y digwyddiad yn gyfle da i'r tîm TCA rannu eu disgwyliadau ar gydymffurfiaid gyda rheoliadau yn llywodraethu cludo deunydd ymbelydrol.

CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: contact@onr.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am yr ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2020

Os ydych yn dymuno defnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 04/20

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.